Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR**

**6 GORFFENNAF 2016**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Datganiad Llywodraethu ar gyfer Cydbwyllgor GwE

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

2.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor.

**3.0 Argymhellion**

3.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**4.0 Goblygiadau ariannol**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**5.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Atodiadau**

8.1 Datganiad Llwyodraethu Blynyddol 2015/16

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Byddaf yn darparu unrhyw sylwadau priodoldeb yn y Cyd Bwyllgor.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r adolygiad o'r gwasanaeth gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynorthwyo GwE i adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, ac mae ymrwymiad wedi ei wneud i ymateb i'r adroddiadau hyn. Rwyf yn fodlon fod y datganiad yma yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu GwE am y flwyddyn 2015/16.